CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| Dyddiad y cyfarfod: | 29 Gorffennaf 2013 |

# Enwebiadau Pwyllgor ar gyfer 2013-14

**1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Gofyn am enwebiadau gan aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer;-

I. Panel Rhiant Corfforaethol o fis Mai 2013 i fis Mai 2014
II. Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer, a
III. Gweithgor Polisi Gosod Tai newydd

**2.0 CEFNDIR**

2.1 **Pwrpas y Panel Rhiant Corfforaethol:** gweithredu ar ran y Cyngor i sicrhau fod yr holl wasanaethau sydd â chyfrifoldeb i blant a phobl ifanc y gofelir amdanynt a gadawyr gofal, o safon uchel ac yn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â'u cymheiriaid. Cynhelir oddeutu 4 o gyfarfodydd arferol o'r Panel bob blwyddyn ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol. Yr aelod a enwebwyd i wasanaethau ar y Panel o fis Mai 2012 i fis Mai 2013 oedd y Cynghorydd J V Owen. Ar gyfer 2013-14, gofynnwyd am ddau enwebiad, y naill gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a'r llall gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

2.2 **Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer:** Maes gwaith y bwrdd yw rhoi sylw i'r ffrydiau gwaith isod i wella gwasanaethau cwsmer:

- *Grymuso Staff ac Agweddau* (yn cynnwys: recriwtio'r bobl iawn gyda'r agweddau iawn, hyfforddi a newid agwedd staff cyfredol a grymuso staff i gymryd penderfyniadau o fewn canllawiau'r polisïau y maent yn gweithio iddynt)
- *Disgwyliadau* (yn cynnwys y safonau Siarter - prydlondeb, ansawdd) *Mynediad* (yn cynnwys y dull gwasanaethau cwsmer e.e. siop un stop, un pwynt cyswllt - systemau CRM, datblygu'r we a mynediad i'ch gwybodaeth chi).
- *Delwedd* (yn cynnwys ansawdd yr amgylchedd/adeiladau y mae'r cwsmeriaid yn derbyn y gwasanaeth ynddynt - safonau cyson ar draws yr ALl, gan gydnabod fod hyn yn cael effaith hefyd ar ysbryd y staff a'r argraff a roddir i'r cyhoedd a delwedd y staff - safonau sylfaenol /côd o ran gwisg).

Gofynnir i’r Aelodau Etholedig fynychu ei gyfarfod/ei chyfarfod cyntaf ym mis Medi (dyddiad i’w gadarnhau). Bydd y swyddog perthnasol yn fodlon iawn i ddarparu brîff petai raid.

2.3 **Gweithgor Polisi Gosod Tai:** Grŵp Tasg a Gorffen a fydd yn cael ei arwain gan Swyddogion Tai Arbenigol oherwydd cymhlethdod a natur dechnegol y Polisi Gosod Tai. Bydd arno hyd at 4 o Aelodau Etholedig a bydd yn rhoi atborth i’r Pwyllgor Sgriwtini yn ystod oes y grŵp – nid yw’n debygol o gymryd mwy na chwe mis.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn enwebu un aelod o’r Pwyllgor i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol o fis Mai 2013 i fis Mai 2014.

3.2 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn enwebu un aelod i wasanaethu ar y Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer hyd oni fydd y prosiect wedi’i gwblhau.

3.3 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn enwebu hyd at 4 o aelodau o’r Pwyllgor i wasanaethu ar y Gweithgor Polisi Gosod Tai am oddeutu chwe mis.

Beverley Symonds (Rheolydd Sgriwtini) Dyddiedig: 15 Gorffennaf, 2013